

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

11/12/14

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Maer, Eifion Roberts, Sharon Evans, Eluned Jones, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, , Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Croesawyd pawb gan y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau Dilys Evans, Dorothi Evans, Dilwyn Jones a J C Williams.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 6ed 2014.
5. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Tachwedd nad oedd ar yr Agenda
6. Adroddiad y Cyngorydd Sir: Adroddodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi trefnu cyfarfod gyda rheolwr rhanbarthol banc y Nat West oherwydd y newydd fod y gangen yn cael ei chau yn Y Bala. Roedd yn falch fod y Swyddfa Bost yn gallu derbyn y llwyth gwaith gan y bydd hyn yn fodd i ddiogelu dyfodol y Swyddfa Bost yn y dref. Bydd Dilwyn Morgan hefyd yn holi am ddyfodol adeilad y Nat West.
7. Materion brys lleol y Cyngorwyr Tref: codwyd pryder am arwyddion ar hyd y pafin yn y Stryd Fawr a allasai fod yn rhwystr i gadeiriau anabl ac i bobl gyda nam ar eu golwg. Cytunwyd i gysylltu gyda'r adran briodol o Gyngor Gwynedd.
8. Materion Cynllunio
 - i. Cymeradwywyd Cais NP5/53/32A Trosi cyn swyddfa dosbarthu ac adeilad allanol yn uned gwyliau yn Swyddfa'r Post, 50 Stryd Fawr Y Bala.
 - ii Cymeradwywyd cais NP5/53/437B sef gosod dysgl 300mm mewn diamedr ar orsaf telegyfathrebu presennol yn Uned 17, Ystad Ddiwydiannol Y Bala.
 - iii Ystyried cais i adeiladu garej ynghlwm i ochr y tŷ yn 23 Cae Gadlas.
 - iv Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i newidiadau mewnol i Uned 3 Adeiladau'r Aran 88-96 Stryd Fawr.
9. Materion Cyllid
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
 - ii Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)1